



Llawlyfr Ysgol Bod Alaw

ENW A CHYFEIRIAD YR YSGOL

Ysgol Bod Alaw
Ffordd Abergele
Bae Colwyn
Conwy
LL29 7ST

Rhif Ffôn :- 01492 530420

e-bost :- pennaeth@bodalaw.conwy.sch.uk

Gwefan yr ysgol:- www.bodalaw.ik.org





Annwyl Rieni

Croeso i chi a'ch plentyn i'n hysgol a hyderaf y bydd y pecyn hwn yn ddefnyddiol i chi. Cyfeiriwch ato o dro i dro neu pan fo'r galw.

Mae'r wybodaeth sy'n gynwysiedig yn amlinellu athrawiaeth a threfniant yr ysgol. Pwysicach na hynny, yn ein barn ni, yw'r ysbryd y gweithredir hyn ynddo. Ceisiwn greu awyrgylch deuluol hapus gan gychwyn o'r gred fod plentyn hapus yn hanfodol cyn y medrwn gael unigolyn sy'n dysgu a datblygu fel person cytbwys.

Mae yma ddrws agored i rieni / warchodwyr bob amser. Os oes cwestiynau neu os bydd pryderon cysylltwch â'r athrawon ac yna gyda mi yn syth. Mae croeso bob amser.

Hyderaf y bydd yr amser y byddwch chi a'ch plentyn yn ei dreulio yn ein mysg yn gyfnod hapus a ffrwythlon. Croeso i chwi i gymdeithas arbennig Ysgol Bod Alaw

Delyth Jones

Pennaeth





PENNAETH

Delyth Jones

Ffôn:- 01492 530420

DIRPRWY BENNAETH

Llion Williams

Ffôn:- 01492 530420

CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR

Gerallt Evans

t/l Ysgol Bod Alaw

PENNAETH STATUDOL GWASANAETHAU ADDYSG

R. Geraint James (Prif Swyddog Addysg),

Yr Adran Addysg,

Adeiladau'r Llywodraeth,

Ffordd Dinerth,

Bae Colwyn.

LL28 4UL.

Ffôn:- 01492 575001

SWYDDOG CYSWLLT

Sue Palmer

GwE

Mrs Iona Evans

AAI Conwy

LLYWODRAETHWYR YSGOL BOD ALAW



PENNAETH

Delyth Jones

CADEIRYDD

Mr Gerallt Evans

IS-GADEIRYDD

Parch Roberts Griffiths

CYNRYCHIOLWYR Y RHIENI

Arwel Hughes

Gareth Williams

Judith Griffiths

Sian Opie

**CYNRYCHIOLWYR YR
AWDURDOD**

Parch Robert Griffiths

ADDYSG LLEOL

Bethan Hughes Roberts

**CYNRYCHIOLYDD
CYNGOR COLWYN**

Cynghorydd Hazel Meredith.

AELODAU CYFETHOLEDIG

Gerallt Evans

Sedd wag

CYNRYCHIOLYDD YR ATHRAWON

Llion Williams

CYNRYCHIOLYDD Y STAFF ATEGOL

Bethan Howarth

CLERC

Siwan Glyn

STAFF YR YSGOL



PENNAETH

Delyth Jones

DIRPRWY

Llion Williams

PENNAETH ADRAN BABANOD

Meinir Thorman-Jones

ATHRAWON

Rhys Hywel Jones
Samantha Williams
Nicola M Jones
Gwilym Prydderch
Delyth Morgan
Anwen Owen Davies
Manon Edwards
Bethan M Lloyd
Eirlys Van Bodegom
Elin Vaughan Hughes
Sioned Williams
Huw Llywelyn Jones

**CYMHORTHYDDION ADDYSGU
A CHYMORTHYDDION ADDYSGU
UWCH**

Sarah Hughes	Gillian Asodia
Sian Alwena Jones	
Lynne Maguire	Bethan Davies
Siân Latchford	Sandra Roberts
Susan Hughes	Siân Owen
Bethan Howarth	Dona Montgomery
Gwenda Evans	Sali Jones
Jane Jones	Gareth Hughes
Ceri George	Mari Smith
Barbara Hindley	

COGYDDES

CYNORTHWYWYR

Rhian Jones	Eleanor Hodkinson
Charlotte Stewart	Jennifer Crowther

UWCHORUCHWYLWRAIG AWR GINIO

Helen Hughes

GORUCHWYLWYR AWR GINIO

Pauline Evans	Bethan Howarth
Pat Edwards	Gareth Hughes

GOFALWRAIG

Diane Thomas

YSGRIFENYDDES

Ceri Evans

CLWB BRECWAST

Barbara Hindley



NODAU AC AMCANION YR YSGOL

NODAU

- Cyflwyno'r addysg gyflawn orau o fewn ein gallu i bob plentyn a hwnnw'n seiliedig ar Fframwaith y Cyfnod Sylfaen, Cwricwlwm Cenedlaethol 2008 a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd 2013.
- Creu amgylchfyd hapus a diogel i bob disgybl dyfu a datblygu yn unigolyn hyderus sy'n ymwybodol o les eraill o'i gwmpas
- Galluogi pob disgybl i ddatblygu'n ddwyieithog fel y gall gymryd rhan lawn ym mywyd cymdeithasol a diwylliannol ei ardal a'i wlad.
- Meithrin balchder a chariad at fro a gwlad, at iaith, traddodiadau a hanes. Datblygu parch at y byd cyfan a phawb sydd ynddo.
- Meithrin hunan-hyder, hunan ddisgyblaeth a hunan-barch ymhob un.
- Datblygu cariad at ddysg a gwybodaeth
- Cynorthwyo pob unigolyn i ddod i adnabod ei hun.
- Annog pob plentyn i wneud y gorau o'i gryfderau a'i ddoniau ac i allu ymdopi â'i wendidau.

AMCANION

Y disgybl

- Cynorthwyo pob plentyn i ddatblygu'n feddyliol, yn emosiynol, yn gymdeithasol, yn gorfforol ac yn ysbrydol. Ceisio meithrin ynddo/ynddi y gallu i werthfawrogi ceinder a harddwch y byd naturiol a'r hyn a grewyd gan ddyn.
- Datblygu medrau allweddol y disgybl ar draws ystod eang o feysydd.
- Darparu'r cyfle i ddisgyblion ddatblygu eu doniau a'u diddordebau, i ddod i adnabod eu hunain ac i ddeall rhywfaint am eu gwendidau a'u cryfderau.
- Ceisio rhoi sylw penodol i bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol o bob math.

Awrygylch, ethos a gwerthoedd

- ◆ Mae tri peth yn bwysig i ni yn yr ysgol:
 - Cymreictod
 - Parchu ein gilydd
 - Gwneud ein gorau glas
- ◆ Sefydlu awrygylch hapus a diogel yn seiliedig ar barchu'n gilydd, yn staff a disgyblion.
- ◆ Creu amgylchedd yn yr ysgol, yn y dosbarth, coridoriau a thu allan, a fydd yn symbylu gwerthfawrogiad o'r cain a'r prydfferth
- ◆ Ceisio magu balchder yn y plant at hanes a phwrpas yr ysgol.

Cwricwlwm

- ◆ Ceisio sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal o fewn gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol



Trefniadaeth

- Sicrhau parhad yn y gwaith drwy'r holl ysgol. Manteisio ar arbenigedd ymysg y Staff pan fo hynny'n cynnig cyfleon ychwanegol i'r disgyblion

Staff

- Penodi staff addas i'r gwaith ar eu cyfer. Sicrhau datblygiad proffesiynol iddynt drwy raglen o hyfforddiant effeithiol. Rhoi cyfle i Staff ddatblygu eu diddordebau a'u doniau er budd yr ysgol.

Rhieni / Warchodwyr

- Cynnal y berthynas gyfeillgar, gadarn a phroffesiynol rhwng yr ysgol a'r rhieni.
- Trefnu cyfarfodydd ffurfiol lle gall yr ysgol a'r rhieni drafod cynnydd ac ymagweddiad y plant
- Cefnogi gweithgareddau codi arian a chymdeithasol y Gymdeithas Rhieni a Chyfeillion yr ysgol.

Adeiladau a Thiroedd

- Ceisio cynnal a chadw'r adeiladau a'r tiroedd mewn cyflwr derbyniol er mwyn sicrhau gofynion y Ddeddf Iechyd a Diogelwch.
- Hybu glanweithdra a chreu amgylchfyd addysgol sy'n tynnu'r gorau o ddisgyblion.

Y Gymuned

- Hybu cysylltiad cadarnhaol rhwng yr ysgol a'r ardal drefol o'i chwmpas er mwyn ennill parch y gymuned a magu parch yn y plant tuag at y gymuned hithau. Meithrin cysylltiadau clos gyda'r elfennau Cymraeg yn yr ardal.





DISGRIFIAD O'R YSGOL

Ysgol Gynradd benodol Gymraeg/ ddwyieithog yw'n hysgol. Sefydlwyd hi ym 1950 a symudwyd i'r adeilad presennol yn 1972.

Dewis y rhieni yw anfon eu plant atom, yn Gymry Cymraeg a phlant o gartrefi di -Gymraeg. Ein dalgylch yw tref Bae Colwyn a'r ardaloedd cylchynol. Ni chawn dderbyn disgyblion oddi-allan i'n dalgylch penodedig.

Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol, iaith gwersi a iaith chwarae. Gan fod can-ran sylweddol o'n disgyblion yn dod i'r ysgol yn ddi-Gymraeg gwneir pob ymdrech i'w cymhathu mor fuan ag sy'n bosibl. Dysgant Gymraeg yn ddi-drafferth trwy weithgareddau a chwarae, trwy ail-adrodd a dynwared. Byddant yn ddwyieithog ymhell cyn cyrraedd pen yr ysgol.

(Cyflwynir Saesneg fel pwnc yn Mlwyddyn 3 yn yr Adran Iau.) Ar ddiwedd eu gyrfa ym Mod Alaw mae'r plant yn trosglwyddo'n naturiol i Ysgol Uwchradd y Creuddyn os mai dyna yw dewis y rhieni.

AMGYLCHFYD

Rydym yn hynod ffodus o fod wedi'n lleoli yn hwylus i'r dref ond eto â thiroedd eang a choedlan o'n cwmpas fel ein bod mewn amgylchfyd diogel ond gyda naww wledig iddi.





POLISI DERBYN YR YSGOL

Daw plant atom yn bennaf o'r ddau Gylch Meithrin (Bae Colwyn a Hen Golwyn). Derbyniwn ddisgyblion i'r ysgol os ydynt yn byw o fewn ein dalgylch cyntunedig. Daw'r disgyblion i'n dosbarth Meithrin yn ystod y flwyddyn ysgol pryd y cânt eu pedwerydd penblwydd, hynny ydi, rhwng Medi 1af ac Awst 31ain. Ar hyn o bryd mae gennym ddau ddosbarth Meithrin, y naill yn cyfarfod yn y bore (8:55-11:15 a.m.) a'r llall yn y pŵn (12:45-3:00 p.m.)



Yn yr un modd derbynnir plant yn llawn amser i'r Dosbarth Derbyn os ydynt yn cyrraedd pump oed cyn diwedd y flwyddyn ysgol. Mae croeso i rieni / warchodwyr sy'n ystyried anfon eu plant atom drefnu i ddod i ymweld â'r ysgol. Cynhelir cyfarfodydd croeso i'r rhieni / warchodwyr newydd y dosbarth meithrin yn ystod tymor yr Haf er mwyn gweld yr ysgol a chyfarfod y pennaeth a'r staff. Yn ogystal â hyn cynigir cyfarfodydd ymgyfarwyddo i'r dosbarth Meithrin sy'n trosglwyddo i'r dosbarth Meithrin ac i'r disgyblion blwyddyn 2 sy'n trosglwyddo i flwyddyn 3.

Yn ystod tymor yr haf gwahoddir rhieni plant newydd yr ysgol un prynhawn i gyfarfod y Pennaeth a'r staff. Mae hwn yn gyfle i gyflwyno'r ysgol ac i drafod unrhyw ymholiadau.

Disgwylir i blant hŷn fod yn rhugl yn y Gymraeg cyn y medrwn eu derbyn i'r ysgol. Cynigir cyfnod trochi i ddisgyblion newydd—ddyfodiaid mewn canolfan iaith. ar bennig yn Ysgol Dolgarog.





CYTUNDEB CARTREF YSGOL

Mae gan yr ysgol Gytundeb Cartref / Ysgol sy'n nodi'r hyn a ddisgwylir gan yr ysgol o safbwynt ymrwymiad rhieni / gwarchodwyr a disgyblion i gefnogi'r ysgol ynghyd ag ymrwymiad yr ysgol i gydweithio a darparu'r gwasanaeth gorau i rieni / warchodwyr a disgyblion. Yn ogystal mae gan yr Ysgol Bolisi a Chytundeb defnydd o'r We a TGCh.

ORIAU DYSGU

Sesiwn Bore Meithrin:	8:55 a.m.—11:15 a.m.
Sesiwn Pnawn Meithrin:	12.45 p.m.— 3.00 p.m.
Adran y Babanod	8.55 a.m.—3.00 p.m.
Adran Iau	8.55 a.m.—3.15 p.m.

DERBYN CYFRIFOLDEB CYN AC AR ÔL DYSGU

Bydd cyfrifoldeb am ddisgyblion gan aelodau o staff yr ysgol yn cychwyn o 8:45yb ac am ddeg munud wedi i'r ysgol orffen. Disgwylir i rieni / warchodwyr ofalu fod disgyblion yn dod i mewn i fuarth yr ysgol yn ddiogel drwy giât uchaf y llwybr troed heb fod yn gynt na'r amser uchod, oni bai eu bod yn mynychu'r Clwb Brecwast.

CLWB BRECWAST AM DDIM

Cynhelir clwb brecwast am ddim yn yr ysgol o 8:10yb. Caeir y drysau yn brydlon am 8:30 y bore er mwyn gofalu fod digon o amser i glirio'r neuadd yn barod ar gyfer cychwyn y diwrnod ysgol.

CLWB AR ÔL YSGOL - CLWB BODS

Mae'r clwb ar ôl ysgol yn cael ei gynnal yn ystod y tymor ysgol yn unig. Mae pecyn gwybodaeth a'r telerau ar gael o'r ysgol. Bydd angen archebu lle yn y Clwb o flaen llaw trwy gysylltu gyda Mrs Bthan Davies.





TREFN CWYNO

Mae'r Awdurdod Addysg Lleol, yn unol â gofynion yr Ysgrifennydd Gwladol, dan Adran 29 (1) o Ddeddf Addysg 2002 a ddaeth i rym ar 1 Medi 2003, wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd y mae Cyrff Llywodraethu'r ysgolion a'r Awdurdod yn gweithredu mewn perthynas a chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig. Mae'r drefn hon wedi ei hamlinellu mewn dogfen bwrpasol yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd ar gael yn yr ysgol. Darperir copi yn rhad ac am ddim, yn ôl y gofyn, i unrhyw rieni sy'n dymuno gwneud cynwys dan y trefniadau hyn, a gall yr Awdurdod ddarparu copi mewn iaith heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg os bydd hynny'n angenrheidiol.



Pwysleisir fodd bynnag, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy drafodaeth gyda'r staff yn y lle cyntaf ac yna gyda'r Pennaeth. Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf, a bydd y Corff Llywodraethu'n disgwyl bod y cam yma wedi ei gyflawni cyn cyflwyno'r gwyn yn ffurfiol mewn achosion eithriadol.

Dylid cysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gwyn gyda'r Pennaeth.

CODI TÂL AM WEITHGAREDDAU

Codir tâl llawn ar rieni am y canlynol:

- Am unrhyw ddifrod i eiddo'r ysgol a wneir yn fwriadol gan eu plentyn
- Costau ymweliadau preswyl a drefnir gan yr ysgol neu'r Awdurdod Addysg Lleol (heblaw pan roddir hawl i eithro o dalu)
- Gweithgareddau a gynhelir y tu allan i oriau ysgol.
- Gwersi Offerynnol.

Gofynnir am gyfraniadau gwirfoddol tuag at gostau ymweliadau addysgol, ymweliadau â'r theatr a chost gwahodd grwpiau theatrig / perfformwyr i'r ysgol.



ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Y cam cyntaf bob amser ydi rhoi sylw arbennig i ddisgyblion fel rhan o'r gwaith dosbarth. Yna gallwn gynnig cymorth ychwanegol pan fo hynny'n addas. Cysylltir â'r rhieni / gwarchodwyr cyn cymryd y cam hwn a bydd cyswllt rheolaidd rhyngom wedi hynny. Gallwn hefyd, gyda chaniatâd y rhieni / warchodwyr, gyfeirio disgybl at arbenigwyr yr Awdurdod ac asiantaethau eraill. Amgeir isod grynodedb o nod ac amcanion ein polisi ADY ond os yw unrhyw riant / warchodwr yn dymuno, mae croeso iddynt weld polisi llawn yr ysgol.

POLISI ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Diffinnir Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gyfreithiol yn Neddf Addysg 1996 fel a ganlyn:

Mae gan blentyn anhawster dysgu os oes ganddo neu ganddi:

- anhawster arwyddocaol mwy wrth ddysgu na'r mwyafrif o blant o'r un oed;
- anabledd sy'n atal neu rwystro ef neu hi rhag gwneud defnydd llawn o'r adnoddau addysgol sydd ar gael o fewn yr ysgol;
- o dan oed ysgol ac yn disgyn o fewn y diffiniad uchod neu yn gwneud hynny pe na bai darpariaeth dysgu ychwanegol ar gael i'r plentyn.
- Nid oes gan blentyn anawsterau dysgu oherwydd bod iaith y cartref yn wahanol i'r iaith y bydd ef/hi yn cael ei addysgu ynddi.

Nod

Egwyddor(ion) ein hysgol yw ...

darparu cwricwlwm eang, cytbwys o fewn amgylchedd gofgar ble gall disgyblion ddatblygu a thyfu tuag at eu llawn botensial beth bynnag y bo eu gallu.

darparu ar gyfer a chefnogi plant gyda anghenion dysgu ychwanegu i ddilyn y cwricwlwm ysgol cyfan gan lwyddo a datblygu yn ôl eu potensial.



Amcanion

Amcan ein polisi ADY yw ...

- *bod trefniadau asesu'r ysgol yn sicrhau bod anghenion addysgol disgyblion yn cael eu canfod cyn gynted ag y bo modd bod data asesu yn cael ei ddefnyddio i helpu i wneud penderfyniadau*
- *bod disgyblion gydag anghenion dysgu yn cael agoriad llawn a chydradd at gwricwlwm eang a chytbwys*
- *dyrannu adnoddau priodol i sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu cyfarfod yn briodol*
- *hysbysu ac annog rhieni i gymryd rhan mewn cyfarfod angenion plant mewn partneriaeth ag ysgolion*
- *defnyddio athrawon, pobl broffesiynol eraill ac adnoddau o fewn a thu allan i'r ysgol pryd bynnag bo'n briodol*
- *gosod ac adolygu targedau cyrhaeddiad yn rheolaidd bod yr holl blant yn tyfu mewn hyder, annibyniaeth a hunan ddibyniaeth i ddod yn ddysgwyr hyderus a medrus*
- *bod yr holl blant yn gallu darllen, ysgrifennu a defnyddio rhifau yn effeithiol gyda hyder ac o fewn eu gallu*
- *bod pob disgybl yn cymryd rhan ac yn gwybod am eu targedau.*

Cyfrifoldeb am gydlynu

Cydlyndd ADY yr ysgol yw SIONED WILLIAMS



Llywodraethwr a enwyd ar gyfer ADY yw BETHAN HUGHES ROBERTS

CYNHWYSIAD / HWYLUSO MYNEDIAD

Mae yr ysgol yn meddu ar bolisi hwyluso mynediad plant ac anebleddau (*The accessibility plan*)/*Cynllun Hygyrchedd*)

- Bydd yr ysgol yn darparu cefnogaeth sensitif a phriodol er mwyn sicrhau y bydd y disgybl yn cael ei gynnwys yn holl weithgareddau'r ysgol.
- Pe byddai'r angen yn codi i wneud addasiad i'r ysgol er mwyn gwella cyfleusterau ar gyfer plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol, byddai'r ysgol yn ymateb yn y modd priodol.
- Mae mynediad i'r ysgol yn bosibl i gadair olwyn ac mae yma doiled i'r anabl.



CWRICWLWM

Fframwaith y Cyfnod Sylfaen, Dogfennau Cwricwlwm Cenedlaethol 2008, Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd 2013 a chwricwlwm cytun Addysg Grefyddol yw sail holl feysydd llafur yr ysgol.

Mae croeso i rieni / warchodwyr gysylltu â'r ysgol unrhyw amser i wneud apwyntiad i drafod gwaith eu plant, yna trefnir amser sy'n gyfleus i'r rhieni a'r staff.. Yr un modd mae'n bosibl gwneud cais i weld unrhyw ddogfennau perthnasol.

DEFNYDDIO'R GYMRAEG



Gan ein bod yn ysgol Gymraeg benodedig, y Gymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol ac fe'i defnyddir ym mhob agwedd o'r cwricwlwm. Y Gymraeg fydd prif gyfrwng bywyd a gwaith yr adran feithrin a'r Cyfnod Sylfaen, er mwyn i'r plant gael sylfaen gadarn yn yr iaith. Cymraeg fydd prif gyfrwng bywyd a gwaith yr adran iau a dechreuir cyflwyno'r Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 2 er mwyn sicrhau eu bod yn cael i ddatblygu'n gwbl ddwyieithog erbyn gadael yr ysgol yn 11 oed. Rhagorfraint yr ysgol yw cael cyfle i gyfranogi o gyfoeth diwylliant drwy gyfrwng dwy iaith.

IAITH

Mae iaith yn ddylanwad unigryw yn natblygiad plentyn ac yn sylfaen pob dysg. Ceisiwn feithrin agwedd gadarnhaol at iaith drwy gynnig i blentyn amrywiol brofiadau a fydd yn symbylu ymateb synhwyrol, bywiog a deallus a fydd yn datblygu gallu ieithyddol plentyn yn ei holl agweddau goddefol a gweithredol-hynny yw yn y ddwy iaith. Byddwn yn meithrin diddordeb plentyn mewn llenyddiaeth yn ei amryw ffurfiau gan sicrhau bod y profiad o ddarllen, gwranddo, gwyllo ac ymateb bob amser yn bleserus ac yn foddhaus. Drwy wneud hyn, byddwn yn creu yn y plentyn ymwybyddiaeth o werth yr etifedd Cymreig fel y gall ymdeimlo a chyfoeth ei gefndir (cynhenid neu fabwysiedig) a pharchu gwahanol ddiwylliannau.

RHIFEDD / MATHEMATEG

Mae syniadau a thechnegau mathemategol yn rhan hanfodol o fywyd pob dydd ac yn cyfrannu'n sylweddol at ein dealltwriaeth o'r byd o'n cwmpas.


Amcan yr ysgol yw datblygu agwedd gadarnhaol tuag at fathemateg fel pwnc diddorol i'w fwynhau. Ceisiwn ddatblygu yn y plentyn y gallu i feddwl yn glir ac yn rheymegol gyda hyder ac ystwythder a fydd yn arwain at ddawn i fynegi syniadau'n glir, drafod y pwnc gyda sicrwydd ac i ddefnyddio iaith fathemategol a'i gymhwyso i sefyllfaoedd yn y cartref.



GWYDDONIAETH

Mae gwyddoniaeth yn rhan o fywyd a bydd y disgybl yn datblygu:

- Meddwl dadansodol a beirniadol drwy ddilyn dulliau rhesymegol a darganfod yn seiliedig ar arsylwi, dyfalu ac arbrofi;
- Dealltwriaeth o bethau byw a phrosesau sylfaenol bywyd;
- Dealltwriaeth o'r modd y gellir defnyddio a datblygu adnoddau'r amgylchfyd



Ymdrinnir â materion rhyw mewn ffordd sensitif yng ngwersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol a Gwyddoniaeth

TECHNOLEG GWYBODAETH A CYFATHREBU

Mae'r datblygiad diweddaraf ym myd addysg wedi rhoi statws uchel i Dechnoleg Gwybodaeth, ynghyd â disgrifiad clir o natur y pwnc. Nodweddir gallu Technoleg Gwybodaeth gan allu i ddefnyddio offer a ffynonellau gwybodaeth T.G. yn effeithiol i ddadansoddi, prosesu a chyflwyno gwybodaeth ac i fodelu, mesur a rheoli digwyddiadau allanol. Yn Ysgol Bod Alaw rhoddir y pwyslais ar ddatblygu T.G drwy bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, a gwelir y cyfrifiadur fel 'arf trawsgwricwlaidd'. Mae'r ysgol yn diweddarau adnoddau TGCh yn gyson ac mae hyn yn cynnwys cysylltiad diwifr drwy'r ysgol, byrddau gwyn rhyngweithiol ym mhob dosbarth, a mynediad aml a chyson i adnoddau gyfrifiadurol a thabledi (iPads).



ADDYSG GORFFOROL

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd sy'n hybu aeddfedrwydd cyffredinol wrth ddatblygu sgiliau corfforol.

Pwysleisir bwysigrwydd lles a ffitrwydd pob disgybl. Bwriadwn i Addysg Gorfforol fod yn rhan annatod o'u bywyd cymdeithasol a bod y disgyblion yn ymddiddori ac yn barod i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol amrywiol. Mae'r ysgol yn hyfforddi'r plant mewn amryw weithgareddau gan gynnwys, gymnasteg, nofio, dawns, gemau, athletau a gweithgareddau antur. Anelir fod pob plentyn yn derbyn oddeutu dwy awr o wers Addysg Gorfforol yng nghyfnod Allweddol 2. Yn ogystal â hyn mae yna gyfleoedd amrywiol i'r disgyblion fynychu sesiynau hyfforddiant ychwanegol ar ôl oriau Ysgol neu yn ystod amser chwarae / cinio.

Mae gan yr ysgol nifer o dimau sy'n rhoi cyfle i'r plentyn i gystadlu yn unigol ac fel aelod o dîm.

Mae'r timau yn cynnwys: Timau pêl droed, hoci, rygbi, nofio, tenis a thraws gwlad. Yn ogystal â hyn ym mlwyddyn 6 rhoddir y cyfle i'r disgyblion fynychu canolfan breswyl Glan-llyn a chanolfan Pentrellyncymer ym mlwyddyn 4



GOFAL BUGEILLIOL

Rhoddir pob plentyn yng ngofal athro arbennig, ond bydd yr holl Staff yn gofalu am fuddiannau'r holl disgyblion.



GWAITH CARTREF

Ni roddir gwaith cartref rheolaidd yn adran y Cyfnod Sylfaen ond cânt lyfrau darllen a rhestri sillafu geiriau aml uchel fel rhan o'n cyswllt cartref / ysgol .

Caiff disgyblion yr Adran Iau waith cartref yn wythnosol. Pwrpas hyn yw atgyfnerthu'r gwaith a gyflawnir yn y dosbarth. Gofynnir i rieni barhau i ddarllen y gyson gyda eu plant ac i annog annibyniaeth wrth iddynt gwblhau eu gwaith cartref yn brydlon a thaclus.

TREFNIADAETH A PHOLISI ADDYSG RHYW

Mae Addysg Rhyw yn rhan o'r cwricwlwm Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Mae'r rhieni warchodwyr yn cael cynnig eithrio eu plentyn o rai o'r gwersi Addysg Rhyw ond nid o'r elfen gwricwlaidd wyddonol.

Yn flynyddol bydd y Cynghorydd Iechyd Bobl Ifanc (Nyrs Ysgol) yn dod i roi sgwrs ynglŷn â rhai agweddau perthnasol o Addysg Rhyw i enethod Blynnyddoedd 5 a 6 a bechgyn Blwyddyn 6. Rhoddir dewis i rieni / warchodwyr i eithrio'u plant o'r sgwrs hwn.

ADDYSG GREFYDDOL A GWASANAETHAU CYD ADDOLI

Mae Addysg Grefyddol yn bwnc statudol yn y Cwricwlwm. Y mae hawl gan rieni eithrio eu plant o'r gwersi hyn, ond nid ydym fel ysgol yn argymhell hyn.

Cynhelir gwasanaethau crefyddol yn ddyddiol. Unwaith yr wythnos, ceir gwasanaeth i'r ysgol gyfan. Ddiwrnodau eraill ceir gwasanaeth i'r ddwy adran yn unigol. Ceir gwasanaeth byr yn y dosbarth ar y dyddiau eraill. Mae hawl gan rieni / warchodwyr i eithrio eu plant o'r gwasanaethau hyn.



OFFERYNNAU CERDD

Mae athrawon peripatetig (teithiol) yn rhoi gwersi offerynnol cerdd.

Cynigir gwersi telyn a drymiau i rai o blant Blwyddyn 4, 5 a 6 gan athrawon teithiol. Cynigir gwersi gïtar i rai o blant blwyddyn 4, 5 a 6. Fel arfer disgwylir i blentyn fod â pheth profiad cerddorol cyn dechrau'r gwersi hyn e.e. eisoes yn cael gwersi piano neu ryw offeryn arall. Disgwylir i rieni gyfrannu tuag at gostau'r gwersi.



YMDDYGIAD

Nôd yr ysgol yw annog plant i fod yn gyfrifol ac i barchu eraill. Byddwn yn gwobrwyo ymddygiad sydd i'w ganmol, gan fod hynny'n rhan gadarnhaol o'r cod Ymddygiad Cadarn a fabwysiadwyd gan yr ysgol.

Rydym fel ysgol yn annog ac yn pwysleisio hunanddisgyblaeth. Ymdrinnir â man ddisgyblu yn y dosbarth gan ddilyn trefn disgyblaeth gadarn yr ysgol. Disgwyliwn gefnogaeth rhieni / warchodwyr pan fo angen yn ôl trefn gydnabyddedig gweithredu Polisi Ymddygiad ysgol.

POLISI GWRTH FWLIO

Mae polisi a threfn gwrth-fwlio yn cael ei gweithredu yn yr ysgol. Mae unrhyw achos o fwlio yn andwyol i ethos Bod Alaw ac yn groes i'n hamcan o gynnig awyrgylch hapus a diogel i bob un. Mae gan bob plentyn yr hawl i dderbyn addysg a mwynhau holl fywyd yr ysgol. Mae gan bawb ym Mod Alaw gyfrifoldeb i ofalu am ei gilydd.

- Canllawiau gweithredu

Bydd yr ysgol yn:

- 1 Cefnogi plant gaiff eu bwlio.
- 2 Helpu bwllis i newid eu hymddygiad
- 3 Rhoi sylw cyfrifol i unrhyw weithred o fwlio a darganfod y ffeithiau cywir drwy:
 - a) holi aelodau'r ddwy ochr yn unigol
 - b) defnyddio pwysau dylanwad cyfoedion i anghymeradwyo bwllio
 - c) chwalu unrhyw egin-grwpiau bwllio
 - ch) ymgynnwys rhieni yn gynnar mewn unrhyw helynt
 - d) helpu plant i ddatblygu strategaethau ac agweddau cadarnhaol.
- 4 Sicrhau cymorth Gwasanaethau Cefnogi a'r Seicolegydd Addysg pan fydd hynny'n angenrheidiol.
5. Defnyddio gwasanaeth yr heddlu os bydd ei angen.

- Canllawiau penodol

- 1 Mae'r Cynllun gwrth-fwlio yn cyd-redeg â Chynllun Ymddygiad Gadarn yr ysgol, sydd yn cydnabod ymddygiad da drwy ganmoliaeth.
- 2 Bydd yr ysgol yn ymateb yn gyflym a chadarnhaol os canfyddir unrhyw fath o fwlio.



SALWCH A DAMWEINIAU

NOD

- ◆ Sicrhau fod lles a gofal plentyn yn cael ei ddiogelu mewn unrhyw argyfwng
 - ◆ Sicrhau fod yr athrawon, staff ategol, rhieni a gwarcheidwad yn gwybod beth yw'r drefn gweithredu mewn argyfwng
1. Sicrhau fod pawb yn yr ysgol yn gyfarwydd â lleoliadau blychau Cymorth Cyntaf.
 2. Sicrhau fod cyfeiriadau a rhifau teleffon pob plentyn ar gael yn hwylus i holl staff yr ysgol.
 3. Sicrhau fod cyfeiriadau a rhifau teleffon man gwaith y rhieni ar gael yn hwylus
 4. Sicrhau fod cyfeiriadau a rhifau teleffon meddyg teulu pob plentyn a'r ysbyty leol ar gael.
 5. Sicrhau fod yr ysgol yn gwybod am unrhyw gyflwr iechyd a all amharu ar y plentyn e.e. caethder, clefyd siwgwr, clyw, golwg.

CANLLAWIAU CYFFREDINOL

1. Rhaid i riant bob plentyn lenwi ffurflen yn rhestru'r manylion uchod (2-5)
2. **Dylid hysbysu'r ysgol yn syth os bydd newidiadau yn y manylion**
3. Hysbysir y rhieni fod gan yr ysgol hawl i weithredu mewn unrhyw argyfwng os methir â chael eu caniatâd mewn pryd.
4. Ni roddir unrhyw foddion i'r plentyn, os nad yw'r moddion yn dyngedfennol i iechyd y plentyn a hynny am hir dymor. Dylid ategu'r dymuniad yma gyda nodyn gan y meddyg teulu a llenwi ffurflen gwybodaeth i'r Pennaeth.
5. Mae rhyddid i'r rhieni / warchodwyr ddod i mewn i roi moddion i'w plentyn yn ôl y galw.
6. Hysbysir y rhieni / warchodwyr os yw plentyn yn sâl neu wedi bod yn cwyno drwy alwad ffôn a gwneir trefniadau i riant / warchodwyr ddod i nôl y plentyn o'r ysgol.



ASESU A CHYSWLLT Â RHIENI / GWARCHODWYR

Trefnir cyfarfodydd rhieni/athrawon bob blwyddyn ysgol. Mae'r cyntaf yn ystod tymor yr hydref ar ôl i'r athro/athrawes ddod i adnabod y plant. Prif bwrpas y noson honno yw trafod agwedd y plentyn at ei waith a rhannu amcanion a thargedau perthnasol. Bydd yr athro/athrawes yn gallu dangos gwaith os gwêl yr angen. Dyma gyfle hefyd i rieni gyflwyno gwybodaeth berthnasol ychwanegol i'r athro/athrawes.

Mae'r ail Noson Agored yn ystod tymor y pasg. Bryd hynny bydd cyfle i weld eu gwaith ac i drafod cynnydd.

Bydd y drydedd cyfarfod yn nhymor yr haf yn sgil anfon yr adroddiadau blynyddol. Mae'r cyfarfod hwn yn ddewisiol i rieni / warchodwyr.

Pwysleisiwn eto fod yma, ym Mod Alaw ddrws agored bob amser. Os oes unrhyw beth yr hoffai rhieni ei drafod naill ai gyda'r Pennaeth neu gyda'r athro / athrawes dosbarth yna cysylltwch i drefnu amser cyfleus.

Ni all yr ysgol hon lwyddo heb gefnogaeth y rhieni. Yr ydym felly yn eich annog i ymddiddori yn addysg eich plant ac i fod yn gefn i'r ysgol yn ei gwaith ac yn ei gweithgareddau cyhoeddus. Mae gan yr ysgol hon Gytundeb Cartref / Ysgol a disgwylir i bob teulu ei gefnogi.

GWEITHGAREDDAU YCHWANEGOL

Gobeithia'r ysgol sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth y rhieni gyda'r holl weithgareddau ychwanegol a drefnir.

Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau oddi allan i oriau ysgol sy'n agored i holl ddisgyblion yr ysgol sydd ym marn y Pennaeth yn aeddfed ac yn barod i gymryd rhan ynddynt.

Ni all yr ysgol dderbyn cyfrifoldeb am oruchwylio plant ar derfyn y sesiynau, a gofynnir i rieni / gwarcheidwad sicrhau eu bod yn gwneud trefniadau i hebrwng eu plant adref yn brydlon.

CYMDEITHAS RHIENI A CYFEILLION BOD ALAW

Mae gennym gymdeithas rieni gweithgar sydd yn cyfrannu yn bositif iawn i fywyd yr ysgol. Cynhelir cyfarfodydd cyson ac estynir gwahoddiad cynnes i bob rhiant fod yn rhan o'r gymdeithas yma. Cynhelir y cyfarfod blynyddol ym mis Medi ac mae croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod yma.





YMWELWYR

Mae'n bwysig iawn fod pawb sy'n ymweld â'r ysgol yn galw yn y Swyddfa yn gyntaf, rhieni a dieithriaid fel ei gilydd. Ni ddylai neb fynd i grwydro'r ysgol heb ymweld ar swyddfa yn gyntaf, ac arwyddo'r llyfr ymweld ac yna dderbyn bathodyn ar gyfer ei wisgo yn ystod yr ymweliad.

ARIAN

Carem i chi anfon unrhyw arian i'r ysgol mewn amlen gyda'r wybodaeth a ganlyn arni:



ENW'R PLENTYN

DOSBARTH

PWRPAS YR ARIAN - E.E. CINIO, GWIBDAITH AC
ATI

SWM YR ARIAN

Er diogelwch, mae siec yn fwy derbyniol nag arian parod bob amser

CINIO YSGOL

Paratoir prydau bwyd yng nghegin yr ysgol. Hoffem gael pob arian cinio ar ddydd Llun neu ddydd Gwener yn wythnosol os gwelwch chi'n dda. Dylai pob siec fod yn daladwy i CBSC

Os credwch y gall eich plentyn fod â hawl i ginio rhad yna gofynnwch yn yr ysgol am ffurflen gais. Bydd hon yn cael ei thrin yn gyfrinachol yr Adran Addysg y Sir ac yn yr ysgol.

Anfonir copi o fwydlen cinio ysgol i bob teulu yn flynyddol. Mae croeso i chi ddewis pa ddyddiadau y mae'ch plentyn i gael cinio ysgol.

Mae'r ysgol yn rhan o ymgyrch Conwy 'Blas am Oes'

Anogir rhieni / warchodwyr i baratoi pecynnau bwyd iachus a chytbwys. Anfonir y bwyd sydd heb ei fwyta ac unrhyw sbwriel yn ôl i chi yn y bocs bwyd er mwyn i chi fod yn ymwybodol o'r hyn mae eich plentyn wedi ei fwyta.





PRESENOLDEB A PHRYDLONDEB

Mae mynychu'r ysgol yn rheolaidd a phrydlon yn bwysig iawn. Disgwylir i'r plant fod yma yn y bore erbyn i'r gloch ganu am 8:55a.m. **ond** os gwelwch yn dda peidiwch ag anfon eich plentyn i'r ysgol cyn 8:45a.m. **Ni fydd athro / athrawes ar ddyletswydd i oruchwyllo'r plant tan 8:45a.m., ac ni fydd yr Ysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am eu diogelwch cyn yr amser hyn oni bai eu bod yn mynychu'r Clwb Brechwast.**

Nodir cyfanswm presenoldeb pob plentyn ar yr adroddiad blynyddol. Os bydd plentyn adre'n sâl rhaid cael naill ai nodyn neu alwad ffôn yn egluro y rheswm am absoneoldeb. Mae'r ysgol yn dilyn canllawiau'r Sir a'r Cynulliad ynglŷn â threfn presenoldeb a phrydlondeb. Byddem yn monitro prydlondeb a phresenoldeb awdurdodedig ac anawdurdodedig pob disgybl sydd dros oedran 5 oed.

Os yw yn angenrheidiol i'r teulu fynd ar wyliau yn ystod tymor ysgol gofynnwch am ffurflen wyliau os gwelwch yn dda.

Anfonir rhestr o'r dyddiadau gwyliau i chi bob blwyddyn.

TYWYDD GARW

Gwnei'r pob ymdrech i gadw'r ysgol ar agor. Petai angen anfon y plant gartref yn gynnwys mewn achosion arbennig fel tywydd garw, byddwn yn cysylltu a chi yn gyntaf. Mewn argyfwng, hysbysir CBConwy fydd yn nodi'r wybodaeth ar eu gwefan. Yn ogystal, gwnei'r pob ymdrech i gysylltu a rhieni trwy neges testun a/neu e bost os yw hynny yn ymarferol bosib.

ADRAN IECHYD / FEDDYGOL

Mae'r Cynghorydd Iechyd Bobl Ifanc (Nyrs Ysgol) yn archwilio plant Derbyn sy'n cynnwys profi eu golwg a'u clyw. Bydd y Meddyg Ysgol yn gweld plant yn ôl yr angen.

Pe digwydd i'ch plentyn fynd yn wael neu gael ei anafu tra yn yr ysgol gweithredir fel a ganlyn:

1. Ffonio'r rhifau ffôn cyswllt sydd wedi eu rhoi i'r ysgol gennych chi.
2. Mynd â'r plentyn i Ysbyty Bae Colwyn neu Ysbyty Glan Clwyd (os bydd angen) a dal i geisio cysylltu â'r rhieni/gwarchodwyr.

Bydd y rhifau ffôn angenrheidiol gennym oddi ar ffurflen mynediad y plentyn neu'r

Holiadur/ffurflen a lenwir yn flynyddol. Os ydych yn newid cyfeiriad, rhif ffôn neu feddyg unrhyw bryd mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi gwybod i'r ysgol yn syth.



GWISG YSGOL

Mae gan yr ysgol hon wisg ysgol swyddogol, ond nid oes gorfodaeth ar blant i'w gwisgo. Er hyn, teimlir bod gwisg ysgol yn arwain at feithrin balchder yn yr ysgol ac ymdeimlad o berthyn iddi.

RHAID labelu'r dillad yn eglur

GWISG YSGOL SWYDDOGOL

GENETHOD

Gaeaf

Sgert, piner neu drywsus llwyd

Siwmpwr yr ysgol-coch

Cardigan goch

Crys polo yr ysgol-gwyn neu goch

Tei yr ysgol-coch a blows wen

Sanau neu drowsanau gwyn, coch neu lwyd

Esgidiau du

Haf

Ffrog goch a gwyn

Cardigan goch

Sgert neu biner lwyd

Crys polo yr ysgol-gwyn neu goch

Tei yr ysgol-coch a blows wen

Sanau gwyn, coch neu lwyd

Sandalau coch, gwyn neu ddu

BECHGYN

Gaeaf

Trywsus llwyd

Siwmpwr yr ysgol- coch

Crys polo yr ysgol-gwyn neu goch

Tei yr ysgol-coch a crys gwyn

Esgidiau du

Haf

Trywsus byr neu hir llwyd, taclus

Siwmpwr yr ysgol- coch

Crys polo yr ysgol-gwyn neu goch

Tei yr ysgol-coch a crys gwyn

Sandalau neu esgidiau du

Gellir archebu gwisg Ysgol, gan gynnwys gwist Addysg Gorfforol; bagiau; hetiau a chotiau trwy brif swyddfa'r Ysgol.



DIM CERBYDAU

Mae'r ysgol yn annog y rhieni i gerdded, beicio neu i rannu ceir wrth ddod a'u plant i'r ysgol. Erfynnir am gydweithrediad pawb er diogelwch y plant. Mae pwyllgor Eco ysgolion yr ysgol yn pwysleisio'r angen am roi ystyried i'r amgylchedd wrth deithio i'r ysgol.

Ni chaniateir unrhyw berson i ddod â cherbyd ar dir yr ysgol heb ganiatâd rhwng 8:00a.m. a 5:00p.m.

Mae modd i yrrwyr ag anabledd gysylltu â'r ysgol i drafod dod a cherbyd ar dir yr ysgol.

YSGOL IACH

Byrbryd

Mae'r ysgol wedi derbyn achrediad Ysgol Iach ac rydym yn hybu bwyta ffrwythau fel byrbrydau yn yr ysgol. Ni chaniateir unrhyw siocled na melysion. Gwerthir ffrythau yn ddyddiol i ddisgyblion yr Adran iau trwy siop y Cyngor ysgol am 20c yr un.

HYBU YFED DŴR

Yr ydym yn hybu'r disgyblion i **yfed dŵr yn rheolaidd**. Gellir defnyddio'r ddwy ffynnon ddŵr sydd wedi eu lleoli yn yr ysgol i ail lenwi eu poteli dŵr. Dyliai disgyblion gario eu poteli dŵr plastig yn ôl ac ymlaen o adref yn ddyddiol er mwyn sicrhau golchi poteli yn dda i sicrhau glendid a iechyd.

YSGOL RHYNGWLADOL

Mae'r ysgol wedi derbyn achrediad Ysgol Rhyngwladol a rhoddir pwyslais ar hyrwyddo perthynas ac ymwybyddiaeth dda o wledydd, cymunedau, diwyllianau amrywiol.

ECO 'SGOLION

Mae'r Ysgol yn rhan o'r ymgyrch Eco 'sgolion ac mae pwyllgor sy'n cynnwys aelodau o staff a disgyblion yn arwain ar amryw o ymgyrchoedd amgylcheddol a materion sy'n ymwneud a Dinasyddiaeth Byd Eang.

CYNGOR YSGOL

Mae'r Cyngor Ysgol yn cael ei hethol bob blwyddyn. Ceir cyfle i fanteisio ar gyfranogiad, barn a sylwadau disgyblion. Mae y Cyngor Ysgol wedi amlygu nifer o faterion dilys a phwysig.



POLISI AMDDIFFYFN PLANT MEWN YSGOLION

Mae'r ysgol yn cydnabod ei dyletswydd statudol i weithio gydag asiantaethau eraill wrth amddiffyn plant rhag niwed ac ymateb i gam driniaeth.

Mae staff yn gobeithio y bydd rhieni a phlant yn teimlo yn rhydd i siarad am eu pryderon gan weld yr ysgol fel lle diogel pe bai anhawster yn y cartref. Bydd pryderon plant yn cael eu cymeryd o ddifrif os byddant yn ceisio cymorth gan aelod o staff. Fodd bynnag, ni all staff sicrhau cyfrinachedd pe bai'n rhaid cyfeirio pryderon i'r asiantaeth briodol er mwyn diogelu lles y plentyn.

Os oes gan staff bryderon arwyddocaol am unrhyw blentyn a all ddangos arwyddion o gam drin corfforol, cam drin emosiynol, camdrin rhywiol neu diffyg sylw, mae angen iddynt eu trafod gyda'r asiantaethau sy'n gyfrifol am ymchwilio a amddiffyn plant.

Mae'n rhaid i staff ddweud am eu pryderon wrth yr athro dynodedig os byddant yn sylwi niweidiau sy'n ymddangos yn fwriadol neu os dywed y plentyn rywbeth arwyddocaol.

Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cynnal ymchwiliadau na phenderfynu a yw plant wedi'u cam drin. Mae hyn yn fater i asiantau arbenigol.

Dylai'r holl staff fod yn gyfarwydd â'r drefn ar gyfer cadw cofnod ysgrifenedig cyfrinachol ar unrhyw ddigwyddiad, a gydag anghenraid y Pwyllgor Amddiffyn Plant Lleol. Gellir cael cyngor gan yr Awdurdod Addysg Lleol, y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r heddlu os yw'r staff yn ansicr sut i fynd ymlaen â'r mater.

Mae amddiffyn plant yn bwysig. Ble'n briodol dylai Llywodraethwyr geisio sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i alluogi'r tasgau angenrheidiol gael eu gwneud yn briodol o dan drefn rh yngasiantaeth.

Bydd materion amddiffyn plant yn cael eu trafod trwy'r cwricwlwm fel bo'n briodol, yn arbennig mewn Addysg Bersonol, Cymdeithasol a lechyd.

Bydd yr ysgol hefyd yn sicrhau bod bwlio yn cael ei nodi a'i drin fel bod unrhyw niwed a achoswyd i ddisgybl arall yn cael ei gadw i'r isafswm. Anogir yr holl blant i ddangos parch tuag at eraill ac i gymeryd cyfrifoldeb am amddiffyn eu hunain. Disgwylir i rieni gynorthwyo plant i ymddwyn mewn dull di-drais a difenwi tuag at staff a disgyblion eraill.

Gall rhieni deimlo yn hyderus bod trefn yn ei lle i sicrhau bod yr holl staff a benodir yn addas i weithio gyda phlant.



Fe ddywedir wrth staff ar unwaith os bydd angen defnyddio grym corfforol i amddiffyn plentyn rhag niwed, atal plentyn rhag niweidio eraill neu os bydd plentyn yn cael ei niweidio yn ddamweiniol. Ni fydd plant yn cael eu cosbi yn yr ysgol gan unrhyw ffurf o drawo neu ysgwyd neu driniaeth israddol arall.

Gellir gwneud unrhyw gwyn am ymddygiad staff wrth y Pennaeth neu Gadeirydd y Llywodraethwyr. Bydd gan bawb hawl i wrandawriad teg, yn blant a staff. Bydd cwynion sy'n codi materion amddiffyn plant yn cael eu hysbysu gan yr ysgol o dan drefn rhyng-asiantaeth leol.

Yr athro dynodedig ar gyfer pob mater amddiffyn plant yn yr ysgol yw Mrs Delyth A Jones.

Y person enwebedig ar gyfer amddiffyn plant o fewn yr Awdurdod Addysg Lleol pe na bai rhieni yn fodlon gydag ymateb yr ysgol yw Noella Roberts.

DATGANIAD POLISI: CYDRADDOLDEB HILIOL AC AMRYWIAETH DIWYLLIANNOL a PHOLISI CYDRADDOLDEB

NOD

Hyrwyddo cydraddoldeb o ran cyfleon, perthnasu da rhwng aelodau o wahanol grwpiau a chymunedau hiliol, diwylliannol a chrefyddol a dileu rhagfarn anghyfreithlon.

EGWYDDORION

Wrth gyflawni ein cyfrifoldebau cyfreithiol o dan y Ddeddf Perthnasu Hiliol 2000 (y gwelliant) dylai:

- pob disgybl dderbyn cyfleoedd i ymgyrraedd at y safonau uchaf posib a'r cymwysterau gorau bosib ar gyfer y camau nesaf o'u bywydau a'u haddysg.
- pob disgybl, gyda chymorth, ddatblygu synnwyr o hunaniaeth bersonol a diwylliannol sy'n hyderus a hyblyg, ac sy'n agored ac yn dangos parch tuag at hunaniaethau eraill.
- pob disgybl ddatblygu'r wybodaeth, y dealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn bod yn rhan o gymdeithas aml-ethnig Prydain a hefyd yng nghydestun ehangach y byd cyd-ddibynnol.



CANLLAWIAU GWEITHREDU

1. POLISIAU

Rydym yn sicrhau bod yr egwyddorion sydd yn y polisi hwn yn berthnasol i holl bolisiau ac ymarfer, gan gynnwys y rhai sydd yn ymwneud â:

- cynnydd, cyrhaeddiad ac asesiad pob disgybl.
- ymddygiad, disgyblaeth a gwaharddiadau.
- datblygiad personol disgyblion a gofalaeth bugeiliol.
- dysgu ac addysgu
- mynediad a phresenoldeb.
- cynnwys y cwricwlwm.
- recriwtio staff a datblygiad proffesiynol.
- partneriaeth gyda rhieni a chymunedau.

2. CYFRIFOLDEBAU

Y Corff Llywodraethol sydd yn sicrhau fod yr ysgol yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth a bod y polisi hwn a'i brosesau a'i strategaethau yn cael eu gwireddu.

Cyfrifoldeb y Pennaeth yw gweithredu'r polisi ac i sicrhau bod holl staff yr ysgol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth briodol, ac am gymeryd camau priodol os oes unrhyw achos o ragfarn anghyfreithlon.

Disgwylir i'r holl staff ddelio ag unrhyw ddigwyddiadau hiliol sy'n codi, i wybod sut i adnabod a herio rhagfarn hiliol a diwylliannol ac i ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth i bob elfen o'u gwaith.

3. HILIAETH A CHÂS AT ESTRONIAID (SENOFFOBIA)

Mae'r ysgol yn gwrthwynebu pob ffurf o hiliaeth a chas at estroniaid, gan gynnwys y ffurfiau hynny sy'n targedu grwpiau crefyddol a chymunedau, ac yn erbyn teithwyr, ffoaduriaid a'r rhai hynny sy'n chwilio am loches.

4. YMLYNIAD CREFYDDOL

Parchwn gredoau ac ymarfer crefyddol yr holl staff, disgyblion a rhieni, a byddwn yn cydymffurfio a phob cais rhesymol yn ymwneud gydag ymlyniad ac ymarfer crefyddol. (Gweler Polisi a Chynllun Gwaith Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd).



IECHYD A DIOGELWCH

Dyma bolisi iechyd a diogelwch Ysgol Bod Alaw sydd i'w ddarllen ynghyd â pholisïau iechyd a diogelwch AALl Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Mae'r corff llywodraethol yn ymrwymedig i ymorol am safon uchel iechyd, diogelwch a lles pob aelod o'r staff, y disgyblion, ymwelwyr a chontractwyr, drwy sicrhau'r canlynol-

- 1) Amgylchedd iach a diogel drwy'r ysgol gyfan.
- 2) Trefniadau i ofalu nad oes neb yn yr ysgol yn gweithio mewn sefyllfa beryglus, yn defnyddio offer anfodddhaol, sylweddau neu beiriannau peryglus.
- 3) Darpariaeth effeithiol i dderbyn a rhannu gwybodaeth iechyd a diogelwch a dderbynnir oddi wrth yr AALl a ffynonellau eraill.
- 4) Hyfforddiant iechyd a diogelwch addas i'r holl staff.
- 5) Mynedfeydd diogel i mewn ac allan o'r ysgol
- 6) Cyfleusterau lles priodol i'r holl staff
- 7) Trefniadau ar gyfer argyfyngau megis tân, cymorth cyntaf a digwyddiadau cysylltiol ag ysgolion.
- 8) Monitro safonau iechyd a diogelwch yr ysgol ac adolygu ystadegau damweiniau/neu osgoi o drwch blewyn.
- 9) Cysylltiad â chymorth arbenigol mewn materion iechyd a diogelwch (AALl)
- 10) Anogaeth i'r staff hyrwyddo safonau iechyd a diogelwch yn yr ysgol (cefnogi cyd - ymgynghori).

Caiff y polisi hwn ei adolygu a'i ddiweddarau fel bo angen.